# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 24 Medi 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.38** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/84314157-fcc1-4513-98d5-26f7d93bc90b?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Robert Chote, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**<br>**Laura van Geest, Canolfan CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd**<br>**Wim Suyker, Canolfan CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Helen Jones (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

TRAWSGRIFIAD
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**

**1.2 Croesawodd y Cadeirydd Nick Ramsay i'r Pwyllgor fel Aelod a diolchodd i Paul Davies am ei waith, gan hysbysu'r Aelodau y byddai'n ysgrifennu ato.**

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Nodwyd y papurau.**

2.1 Cyllid addysg uwch: Llythyr gan Darren Millar AC (30 Gorffennaf 2014)

2.2 Y Bil Addysg Uwch (Cymru): Llythyr gan Addysg Uwch Cymru (31 Gorffennaf 2014)

2.3 Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru 2012-13: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid (5 Awst 2014)

2.4 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (29 Awst 2014)

## 3 Ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb - Rhan II: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Laura van Geest, Cyfarwyddwr, a Wim Suyker, Arweinydd y Rhaglen yn y Biwro CPB yr Iseldiroedd ar gyfer Dadansoddi Polisi Economaidd, yn Rhan II o'r ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol

## 4 Ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb - Rhan II: Sesiwn dystiolaeth 2

**4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Robert Chote, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, yn Rhan II o'r ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol.**

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol - Rhan II: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

6.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru): Goblygiadau Ariannol y Bil

7.1 Trafododd yr Aelodau'r papur briffio ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), gan gytuno y byddent yn gwahodd Bethan Jenkins AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol, i ateb cwestiynau ar oblygiadau ariannol y Bil fel y mae ar hyn o bryd.

7.2 Cytunodd Ann Jones i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith craffu ariannol ar y Bil wrth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg graffu arno yng Nghyfnod 1.

## 8 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2013 - 2014

8.1 Trafododd yr Aelodau'r papur gan RSM Tenon ar Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfrifon 2013-14 a chytunwyd nad oeddent am i gynrychiolydd o RSM Tenon fod yn bresennol wrth i'r Pwyllgor drafod Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a Chyfrifon 2013-14 ym mis Tachwedd.

8.2 Bydd y Clerc yn ysgrifennu at RMS Tenon yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn, gan hefyd wneud cais am grynodeb byr o'r papur.

## 9 Y flaenraglen waith

9.1 Nododd yr Aelodau'r rhaglen waith. Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o ymweld â Senedd yr Alban a bydd yn rhoi gwybod i'r Clerc os ydynt ar gael. Awgrymodd yr Aelodau hefyd feysydd gwaith ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol a fydd yn cael ei ystyried yn nes ymlaen.